# Pleidleisiau a Thrafodion dydd Mawrth, 17 Gorffennaf 2001

**Dechreuodd y cyfarfod am 2pm**

**Gwnaeth y Llywydd ddatganiad ar ei fwriad i ganiatáu cynnig trefniadol i dderbyn Cynnig Heb Ddyddiad Trafod ar Siambr Ddadlau newydd y Cynulliad yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw a gofynnodd i'r Aelodau gyflwyno unrhyw welliannau erbyn 4.30pm.**

**2.05pm**
**Ethol Aelodau i dri Phwyllgor Penderfyniadau Cynllunio**
***NDM752* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu:**
1. Bod pwyllgor, i'w adnabod fel Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio 2001/4, yn cael ei sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog 35, i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad o dan Adran 77 (1) a 78 (1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â'r mater a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, a bod swyddogaethau'r Cynulliad yn y cyswllt hwnnw yn cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw;

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:

Richard Edwards (Cadeirydd)
Mick Bates
John Griffiths
Rhodri Glyn Thomas

3. Y bydd y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 35.16 neu ar 31 Awst 2001, p'un bynnag sy'n dod gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i'r Cadeirydd lofnodi llythyrau penderfynu mewn perthynas â'r materion a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, yna yn yr achos hwnnw dirprwyir y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, mewn perthynas â mater o'r fath, i Brif Weinidog Cymru.

**Atodlen**
Cais wedi'i alw i mewn gan Marks and Spencer PLC ar gyfer estyniad arfaethedig i siop bresennol Marks and Spencer ar dir i'r gorllewin o siop Tesco, Croes Cwrlwys, Trelai, Caerdydd

Apêl cynllunio gan Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Cymunedol Caerdydd am ganiatâd cynllunio bras ar gyfer datblygiad defnydd cymysg yn Ysbyty'r Eglwys Newydd, Park Road, Caerdydd gan gynnwys defnydd ysbyty, preswyl, hamdden, cymunedol a manwerthu gyda chaeau chwarae.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 33; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 33
**Derbyniwyd y cynnig**

*NDM753* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu:
1. Bod pwyllgor, i'w adnabod fel **Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio 2001/5**, yn cael ei sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog 35, i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad o dan Adran 78 (1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â'r mater a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn (ynghyd â swyddigaethau'r Cynulliad, mewn perthynas â'r trydydd mater a nodir yn yr Atodlen, o dan Adran 20(1) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990), a bod swyddogaethau'r Cynulliad yn y cyswllt hwnnw yn cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw;

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:

Sue Essex (Cadeirydd)
David Davies
Geraint Davies
Karen Sinclair

3. Y bydd y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 35.16 neu ar 30 Medi 2001, p'un bynnag sy'n dod gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i'r Cadeirydd lofnodi llythyrau penderfynu mewn perthynas â'r materion a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, yna yn yr achos hwnnw dirprwyir y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, mewn perthynas â mater o'r fath, i Brif Weinidog Cymru.

**Atodlen**
Apêl cynllunio gan National Windpower Ltd ar gyfer cynllun i ddatblygu fferm wynt yn cynnwys 17 cynhyrchydd tyrbin gwynt, traciau mynediad, is-orsaf ac offer atodol ar dir yn Jordanston, Abergwaun, Sir Benfro

Apêl cynllunio gan Mr P Davies, Eurogate Project Ltd, ar gyfer cynllun i ddatblygu anheddiad pentref y mileniwm newydd ym Mrynglas, Llansanffraid Gwynllwg, Casnewydd

Apêl cynllunio ac apêl adeilad rhestredig gan BT Cellnet Ltd ar gyfer cynllun i osod cabanau offer telathrebu gydag erialau ar dir yn Empire House, 54-57 Sgwâr Mount Stuart, Butetown, Caerdydd.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 33; Ymatal 0; Yn erbyn 1; Cyfanswm 34
**Derbyniwyd y cynnig**

*NDM754* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu:
1. Bod pwyllgor, i'w adnabod fel **Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio 2001/6**, yn cael ei sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog 35, i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad o dan Adran 77 (1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn perthynas â'r mater a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, a bod swyddogaethau'r Cynulliad yn y cyswllt hwnnw yn cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw;

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:

David Davies
John Griffiths
Tom Middlehurst
Rhodri Glyn Thomas

3. Y bydd y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 35.16 neu ar 30 Medi 2001, p'un bynnag sy'n dod gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i'r Cadeirydd lofnodi llythyrau penderfynu mewn perthynas â'r materion a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, yna yn yr achos hwnnw dirprwyir y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, mewn perthynas â mater o'r fath, i Brif Weinidog Cymru.

**Atodlen**
Cais wedi'i alw i mewn gan Mr a Mrs S George ar gyfer cynllun i drosi sgubor ac ailgodi adfeilion hen anheddfa a dymchwel adeiladau wedi dadfeilio yn Enfield, Portfield Gate, Hwlffordd

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 35; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 35
**Derbyniwyd y cynnig**

**2.09pm**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Gofynnwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 2 + 10 yn ôl

**2.43pm**
**Datganiad: Gwnaeth y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ddatganiad ar Adroddiad McKenzie**

**3.06pm**
**Datganiad: Gwnaeth y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ddatganiad ar Amrywiaeth mewn Penodiadau Cyhoeddus**

**3.22pm**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**

Cytunwyd ar y datganiad busnes

**3.27pm**
**Cynnig cyfansawdd**
**NDM744 - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25, yn cymeradwyo:**

1. **Rheoliadau Addysg (Cyrff Sefydledig) 2001**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw’n tynnu sylw’r Cynulliad yn arbennig o dan Reol Sefydlog 11.5 at unrhyw faterion sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Addysg (Cyrff Sefydledig) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001.

2. **Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw’n tynnu sylw’r Cynulliad yn arbennig o dan Reol Sefydlog 11.5 at unrhyw faterion sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001.

3. **Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2001**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mehefin 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw’n tynnu sylw’r Cynulliad yn arbennig o dan Reol Sefydlog 11.5 at unrhyw faterion sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau 2000 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001.

4. **Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2001**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mehefin 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw’n tynnu sylw’r Cynulliad yn arbennig o dan Reol Sefydlog 11.5 at unrhyw faterion sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2001, a’r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Gorffennaf 2001.

5. **Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw’n tynnu sylw’r Cynulliad yn arbennig o dan Reol Sefydlog 11.5 at unrhyw faterion sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau

Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2001, a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Gorffennaf 2001.

6. **Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2001**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw'r Cynulliad yn arbennig o dan Reol Sefydlog 11.5 at unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig cyfansawdd:**
O blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47
**Derbyniwyd y cynnig cyfansawdd**

**3.29pm**
**Cymeradwyo Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2001**
*NDM745* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM746* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw'r Cynulliad yn arbennig o dan Reol Sefydlog 11.5 at unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2001; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**3.43pm**
**Cymeradwyo Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2001**

*NDM747* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM748* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw'r Cynulliad yn arbennig o dan Reol Sefydlog 11.5 at unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2001; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**3.58pm**
**Dadl ar Gynllun y Sector Gwirfoddol**
*NDM751* **-** Cynnig bod y Cynulliad:
1. yn nodi'r camau a gymerwyd i roi ar waith Gynllun y Sector Gwirfoddol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mehefin 2001, yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2001, ac yn cytuno i gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Gorffennaf 2001.

2. yn cydnabod cyfraniad pwysig y sector gwirfoddol a'r ffordd adeiladol y mae'r sector a'r Cynulliad wedi cydweithio yn ystod y flwyddyn, yn arbennig drwy Gyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol;

3. yn cytuno y dylid cyfeirio argymhellion Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol at y Gweinidogion a'r Pwyllgorau priodol er mwyn iddynt allu gweithredu arnynt.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**
**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru):**
Rhoi pwynt newydd i mewn ar ôl pwynt 1 ac ailrifo'r pwyntiau sy'n dod wedyn:
Yn gwerthfawrogi'n arbennig waith y sector gwirfoddol o ran y ffordd y mae'n cyfrannu at broses llunio polisi y Cynulliad Cenedlaethol;

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42
**Derbyniwyd y Gwelliant 1**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**4.12pm**
**Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar Adroddiad MacPherson ar Ymchwiliad Stephen Lawrence**

*NDM749* **-** Cynnig bod y Cynulliad:
Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar argymhellion addysg Adroddiad Ymchwiliad Stephen Lawrence, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Gorffennaf 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.47pm**
**Diwygio'r Cyfarwyddyd ar Gwestiynau'r Cynulliad**
*NDM750* **-** Cynnig bod y Cynulliad yn mabwysiadu'r Cyfarwyddyd ar Gwestiynau'r Cynulliad a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Gorffennaf 2001.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.48pm**
*Cynigiodd Trefnydd y Cynulliad gynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn gerbron y Cynnig Heb Ddyddiad Trafod canynol a gyflwynwyd ar 17 Gorffennaf 2001:*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol:**
O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Derbyniwyd y cynnig trefniadol**

**4.48pm**
**Cynnig Heb Ddyddiad Trafod**
**NNDM773 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, ymhellach at ei benderfyniad ar 21 Mehefin 2000, yn penderfynu:

Ceisio tendrau cystadleuol i gwblhau Adeilad y Cynulliad, wedi ei seilio ar y dyluniad a baratowyd gan Bartneriaeth Richard Rogers, ac un ai ei brydlesu i'r Cynulliad neu ei werthu am un swm y cytunwyd arno; a gohirio gwaith ar yr adeilad nes i'r fath dendr gael ei dderbyn.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Dileër popeth a rhoi "Canslo prosiect Adeilad newydd y Cynulliad" yn ei le.

**Gwelliant 2 - Michael German (Dwyrain De Cymru);**
Ychwaneger fel paragraff newydd:
Ar ôl i'r tendrau ddod i law ac ar ôl eu hystyried, cyfarwyddo'r Gweinidog dros Gyllid i argymell p'un a ddylai'r prosiect barhau, ac os felly, ar ba sail.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwaneger fel paragraff newydd:
Ar ôl i'r tendrau ddod i law ac ar ôl eu hystyried, cyfarwyddo'r Gweinidog dros Gyllid i argymell p'un a ddylai'r prosiect barhau, ac os felly, ar ba sail.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ychwaneger pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Cyhoeddi ar unwaith y costau llawn a dalwyd neu a ymrwymwyd i'w talu am Adeilad newydd y Cynulliad hyd yn hyn.

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ychwaneger pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Cyhoeddi ar unwaith y rhesymau am derfynu'r contract gyda Phartneriaeth Richard Rogers a'r costau sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad hwnnw.

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ychwaneger pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Cyhoeddi ar unwaith gostau peidio â pharhau â Phrosiect Adeilad newydd y Cynulliad.

**Gwelliant 7 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ychwaneger pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Gresynu'r methiant i gyhoeddi'r ffeithiau ynghylch canslo'r contract yn gynnar.

**Gwelliant 8 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ychwaneger pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Gohirio'r penderfyniad ar Adeilad newydd y Cynulliad hyd nes y sefydlir yr holl ffeithiau a'r ffigurau ynghylch costau'r prosiect a dalwyd neu yr ymrwymwyd i'w talu hyd yn hyn, ac y cyhoeddir costau canslo'r cytundeb gyda Phartneriaeth Richard Rogers, gan alw'r Cynulliad cyfan yn ôl dros Doriad yr Haf os oes angen.

**5.25pm**
*Cynigiodd Trefnydd y Cynulliad gynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ganiatáu i'r ddadl barhau ar ôl 5.30pm*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol**
O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 2; Total 48
**Derbyniwyd y cynnig trefniadol**

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 9; Ymatal 0; Yn erbyn 42; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 42; Ymatal 9; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Derbyniwyd Gwelliant 2**

**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 9; Ymatal 0 Yn erbyn 40 Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O blaid 9 Ymatal 0 Yn erbyn 41;Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O blaid 9; Ymatal 0; Yn erbyn 41; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd Gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O blaid 9; Ymatal 0; Yn erbyn 42; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd Gwelliant 7**

**Gwelliant 8**
O blaid 9; Ymatal 0; Yn erbyn 42; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd Gwelliant 8**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 8; Cyfanswm 51
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.19pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05am ddydd Iau, 19 Gorffennaf 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 13 GORFFENNAF 2001**
Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2001 - LD967 - Dim fersiwn electronig ar gael

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 12 GORFFENNAF 2001**
Awdurdod Datblygu Cymru: Cyfrifon 2000-2001 - LD966

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 11 GORFFENNAF 2001**
Adroddiad y Pwyllgor Busnes ar gynnig i newid Rheol Sefydlog 22 - LD961
Tabl 1: Cyllideb Ddiwygiedig Swyddfa'r Llywydd ar gyfer 2001-2002 a Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2002-2003 i 2004-2005 - LD962 - Dim fersiwn Gymraeg ar gael